PWYLLGOR CRAFFU PLANT A PHOBL IFANC

DYDD MAWRTH, 12 MEDI 2017

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Bridgeman (Cadeirydd), Y Cynghorwyr De'Ath, Philippa Hill-John, Morgan, Murphy, Phillips, Taylor a/ac Singh |
| : | Aelodau Cyfetholedig: Patricia Arlotte (Cynrychiolydd Gatholig Rufeinig), Carol Cobert (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru) a/ac Rebecca Crump |

11 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Joyce a Karen Dell'Armi.

12 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

13 : RHAGLEN GYFOETHOGI GWYLIAU'R YSGOL - BRÎFF

Derbyniwyd y Pwyllgor adroddiad ar waith Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau'r Ysgol 'Bwyd a Hwyl'. Mae'r rhaglen ffordd arloesol i atal plant rhag angen bwyd yn ystod gwyliau'r ysgol ac i leihau effaith tlodi ac amddifadu cymdeithasol.

Dywedwyd wrth yr aelodau fod gwyliau'r ysgol weithiau'n cyflwyno anawsterau ar gyfer teuluoedd sy'n ennill incymau isel y byddai eu plant yn cael budd o frecwast a chinio ysgol am ddim. Mae rhai plant yn methu prydau yn ystod gwyliau'r ysgol. Ar ben hynny, mae diffyg chynlluniau chwarae am ddim a gweithgareddau chwaraeon yn cael effaith mwyaf ar blant dan anfantais. Mae methu prydau, ffordd eisteddog o fyw ac allgáu cymdeithasol yn ystod y gwyliau yn atgyfnerthu anghydraddoldeb iechyd sydd eisoes yn bodoli ac allgáu cymdeithasol a hefyd yn tanlinellu llwyddiant polisïau brecwast a chinio ysgol am ddim.

Datblygwyd a threialwyd rhaglen gyfoethogi yr haf 'Bwyd a Hwyl' yng Nghaerdydd yn 2015 ac yna cafodd ei chyflwyno mewn mwy o ardaloedd yng Nghymru yn 2016. Y rhaglen yw'r enghraifft cyntaf y DU o broject amlasiantaeth sy'n cynnig prydau iach, sgiliau maeth, chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill yng ngwyliau'r ysgol. Y bwriad yw gwella iechyd plant a hybu dysgu.

Croesawodd y Cadeirydd Sarah Merry, Aelod Cabinet dros Addysg, Cyflogaeth a Sgiliau; Nick Batchelar, Cyfarwyddwr Addysg; Katie Palmer, Bwyd Caerdydd; Judith Gregory, Arlwyo Addysg ac Emma Hill, Chwaraeon Caerdydd i'r cyfarfod. Gwahoddwyd yr Aelod Cabinet i wneud datganiad byr.

Derbyniwyd y Pwyllgor gyflwyniad byr. Cafodd Aelodau wahoddiad i holi cwestiynau, ceisio eglurhad pellach neu wneud sylwadau am y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelodau am eglurhad ar nifer y plant sy'n mynychu'r rhaglen a'r meini prawf dethol a ddefnyddir i ddyrannu lleoedd ar y rhaglen. Dywedodd swyddogion fod yr ysgolion sy'n cofrestru ar gyfer y rhaglen wedi'u lleoli mewn ardaloedd amddifad iawn. Y llynedd, mynychodd 416 o blant o 10 ysgol y rhaglen. Cafwyd cynnydd yn nifer yn mynychu eleni ond ni fydd ffigurau terfynol ar gael tan fis Hydref. Bydd pob ysgol yn rhoi ei meini prawf ei hun ar waith. Nodwyd bod plant yn CA2 yn bennaf sydd ag angen.

- Roedd y gost fesul plant yn mynychu'n gyfartal ag oddeutu £20 y plentyn y dydd yng Nghaerdydd, a gymharodd â £30 y plentyn y dydd ledled Cymru. Mae anodd cyfrif costau oherwydd darparwyd cyllid gan nifer o asiantaethau. Fodd bynnag, oddeutu £8k yr ysgol oedd y gost. Nododd Aelodau, pe bai cynnydd yn nifer y plant yn mynychu'r rhaglen, y byddai'r gost fesul plentyn yn cael ei lleihau yn unol â hynny. Staffio yw'r gost uchaf. Mae'r gymhareb plentyn/oedolion mewn rhai ysgolion yn optimaidd ond nid yw hi mewn ysgolion eraill. Felly, mae modd arbed mwy o arian.

- Wrth gymharu â chynlluniau gwirfoddol eraill megis 'Chomp' a redir gan Eglwys y Bedyddwyr Albany,, rhedir y cynllun gwirfoddol gan rieni a gwirfoddolwyr. Maent yn cynnig rhaglen 2 awr lle y mae plant yng nghwmni rhieni/oedolion ac mae Foodbank Plus yn mynd â phryd i'r plentyn.

- Dywedodd swyddogion fod ysgolion yn gallu cynnig y rhaglen yn ystod gwyliau'r haf – naill ai 4 dydd yr wythnos am 3 wythnos neu 3 dydd yr wythnos am 4 wythnos. Cynigiwyd y rhaglen i 21 ysgolion ar 13 gwahanol safle.

- Gofynnodd Aelodau a oes ystyriaeth wedi'i rhoi i fyrhau'r oriau o 0900 tan 1500 er mwyn lleihau cost cynnig y rhaglen. Dywedodd swyddogion fod rhieni, yn ôl adborth, yn cefnogi diwrnodau hirach gan fod diwrnodau byrrach yn anos eu rheoli. Cynigiodd y diwrnod hirach gyfle mwy hefyd i amrywio'r gweithgareddau a gynigir yn rhan o'r rhaglen.

- Gofynnod swyddogion a oes unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i nodi plant mewn perygl o ordewdra yn ogystal â chanolbwyntio ar amddifadu cymdeithasol.

  Dywedwyd wrth Aelodau nad oes y rhain wedi'i hystyried hyd yn hyn, ond gellid eu hystyried.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

14 : PERFFORMIAD DROS DRO YSGOLION CAERDYDD 2017 AC ADRODDIAD PERFFORMIAD ADDYSG A GYDOL OES CHWARTER 1

Derbyniwyd y Pwyllgor ddiweddariad ar lafar ar ganlyniadau perfformiad dros dro Ysgolion Caerdydd ar gyfer 2016/17. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Addysg hefyd Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 y Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2017/18 cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet ar 21 Medi 2017. Dywedwyd wrth Aelodau fod Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 wedi'i atodi fel Atodiad A at yr adroddiad yn rhoi diweddariad ar gynnydd o ran cyflawni'r blaenoriaethau strategaeth wedi'u nodi yng Nghynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth 2017-19. Atodwyd Trosolwg o Berfformiad Addysg a Dysgu Gydol Oes yn Atodiad B.

Perfformiad Ysgol 2017

Derbyniwyd y Pwyllgor gyflwyniad byr ar ddarparu canlyniadau perfformiad. Cynhwysodd y cyflwyniad ddata ar ganlyniadau Cyfnod Sylfaen; Dangosyddion Craidd Cyfnod Allweddol (CA) 2 a Chyfnod Allweddol 3; Canlyniadau Plant sy'n Derbyn Prydau Ysgol Am Ddim (PYADD) yn erbyn Plant nad ydynt yn Derbyn PYADD yn y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3; data CA4 a data CA5 dros dro.

Crynhoir y prif themâu wedi'u nodi yn y cyflwyniad fel a ganlyn:

- Mae canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen ar gyfer Caerdydd yn uwch na chyfartaledd y Consortiwm
- Canlyniadau Plant sy'n Derbyn Prydau Ysgol Am Ddim (PYADD) yn erbyn Plant nad ydynt yn Derbyn PYADD – cyflawnodd 77% o ddisgyblion sy'n derbyn PYADD y lefel a ddisgwyliwyd o gymharu â 91% o ddisgyblion nad ydynt yn derbyn PYADD
- Cyflawnodd 89.4% o ddisgyblion CA2 y lefel a ddisgwyliwyd oedd yn unol â'r cyfartaledd
- 13% oedd y blwch mewn cyflawniad yn CA2 rhwng plant sy'n derbyn PYADD a phlant nad ydynt yn eu derbyn, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru sef 14.3%
- Bu mân ostyngiad yn nghanlyniadau Mathemateg yn CA3
- Cyfrifwyd data CA4 dan drefniadau newydd.
  Darparodd y data waelodlin newydd nad oes modd ei chymharu á data 2016.
- Roedd canlyniadau trothwy Lefel 1 CA4 yn is na chyfartaledd y consortiwm. Effeithiodd nifer o ffactorau ar berfformiad. Bydd Aelodau yn derbyn manylion llawn yn adroddiad perfformiad Ionawr 2018.
- Roedd canlyniadau CA5 yn dda.
  Perfformiodd bechgyn yn well na ferched am y tro cyntaf.

Cafodd Aelodau wahoddiad i wneud sylwad am hyn, codi cwestiynau neu cheisio eglurder am y wybodaeth a roddwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelodau a oedd yn rhesymol fod arholiadau blwyddyn 5 wedi'i marcio'n wahanol eleni. Dywedodd swyddogion y cafodd yr arholiadau eu marcio ar ddiwedd cyfnod astudio o 2 flynedd. Roedd disgyblion yn ymwybodol y byddai'r arholiadau hyn yn cael eu marcio'n wahanol o'r cychwyn.

- Nododd Aelodau'r data plant sy'n derbyn PYADD yn erbyn plant nad ydynt yn derbyn PYADD a'r adnoddau ychwanegol wedi'u dyrannu i bontio'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y ddau grŵp. Gofynnodd Aelodau a oedd unrhyw ddata ar gael dan PYADD a fyddai'n ei gwneud yn anos pontio'r bwlch cyrhaeddiad, megis plant gydag anghenion dysgu ychwanegol neu Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill. Er enghraifft, awgrymodd Aelodau y gall sawl ysgol bontio'r bwlch yn well gan fod llai o ddisgyblion Saesneg i siaradwyr ieithoedd eraill yn eu mynychu. Dywedodd swyddogion fod llawer o ffactorau'n effeithio ar gyrhaeddiad ac mae PYADD yn un o'r rhain. Mae ysgolion yn dod yn fwy soffistigedig o ran adnabod y materion hyn.

- Cadarnhaodd swyddogion y bydd data plant sy'n derbyn PYADD yn erbyn plant nad ydynt yn derbyn PYADD ar gael ar sail ysgol unigol yn y dyfodol. O'r data hwnnw, bydd yn bosibl asesu pa mor effeithiol y mae grant amddifadedd disgyblion wedi bod. Bydd gan y Pwyllgor gyfle i ymchwilio i'r materion hyn yn y cyfarfod mis Ionawr 2018.

- Gofynnodd Aelodau hefyd am ddata ar gyrhaeddiad disgyblion sydd wedi atal hawlio PYADD a manylion pellach am y cynllun gwella addysg heblaw yn yr ysgol.

<u>Adroddiad Perfformiad Chwarter 1</u>

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Addysg Adroddiad Perfformiad Chwarter 1 Addysg a Dysgu Gydol Oes ar gyfer 2017/18. Gan gyfeirio at y blaenoriaethau wedi'u nodi yn yr adroddiad, ac yn enwedig, yr angen i wella darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, dywedwyd wrth Aelodau fod lleoliadau y tu allan i Gaerdydd yn gosod pwysau enfawr ar gyllidebau. Roedd angen brys i ehangu darpariaeth yn y Ddinas.

Blaenoriaeth 4 – Sicrhau bod lleoedd ysgol o ansawdd digonol i fodloni'r boblogaeth sy'n tyfu yn y Ddinas – dywedodd y Cyfarwyddwr fod gormod o geisiadau am gyllid Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu derbyn. Mae'r Bwrdd Adnewyddu Asedau wedi'i sefydlu ac mae'n gweithio trwy flaenoriaethau a chyllidebau ar gyfer eleni i fynd i'r afael â materion cyflwr ac addasrwydd yn yr ystâd ysgolion. Mae fforddiadwyedd yn parhau i fod yn her allweddol gan fod nifer mawr o ysgolion yn y ddinas sydd mewn cyflwr gwael. Credodd y Cyfarwyddwr fod angen Cynllun Gwella Adnewyddu Asedau.

Blaenoriaeth 6 – Gwaith gyda Consortiwm Canolbarth Y De i ddatblygu ymhellach gapasiti'r system ysgolion fel y bydd yn gwella ei hun – dywedwyd wrth Aelodau fod ymdrechion wedi bod i gyflwyno mwy o gysondeb ym 4 consortiwm Cymru. Awgrymodd y Cyfarwyddwr y gallai newidiadau polisi o'r fath fod o ddiddordeb i'r Pwyllgor.

Blaenoriaeth 7 – Adeiladu partneriaethau effeithiol rhwng ysgolion, busnesau, y sector gwirfoddol a gwasanaethau cyhoeddus eang a chymunedau i gyfoethogi'r cwricwlwm ysgol a chryfhau llywodraethu ysgol – dywedwyd wrth Aelodau fod llwyddiannau nodedig wedi bod yn erbyn y flaenoriaeth hon, yn enwedig o ran Ysgol Uwchradd Y Dwyrain ac Ysgol Uwchradd Cymunedol y Dwyrain Caerdydd.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan Aelodau'r Pwyllgor. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelodau pa heriau sy'n wynebu cyflwyniad Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif Caerdydd.

  Dywedodd yr Aelod Cabinet fod angen lleoedd ysgol ychwanegol, cyflwr adeiladau ysgol a gwella darpariaeth ar gyfer pobl ifanc gydag anghenion dysgu ychwanegol yn sylweddol ar Gaerdydd,

- Gofynnodd Aelodau i swyddogion sylwi ar recriwtio a chadw athrawon Cymraeg. Dywedodd y Cyfarwyddwr, wrth i ddarpariaeth barhau i ymestyn, fod yr angen am niferoedd mawr o athrawon yn parhau i fod yn heriol. Mae hefyd sawl her mewn

ysgolion ffydd, yn enwedig yn y sector Catholig.

- Cefnogodd Aelodau y fframwaith newydd ar gyfer mesur perfformiad plant sy'n derbyn gofal.
  Dywedodd y Cyfarwyddwr, er ei bod yn rhy gynnar i farnu'r fframwaith, ei fod wedi croesawu canolbwynt ar y grŵp hwn. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i leoli disgyblion mewn ysgolion trwy ddefnyddi'r lifer derbyn plant sy'n derbyn gofal.

- Mae datblygu Academi Arweinwyr Addysg Cymru wedi cynnig cyfle i arweinwyr addysg ddysgu gan ei gilydd a rhannu arferion.
  Mae rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran cyflwyno agwedd ffurfiol ar gyfer penaethiaid uchelgeisiol.

- Nododd Aelodau fod Eithriadau Llawn Amser (ELIA) yn y categori 'coch' ar gyfer y cyfnod a bod hyn yn berthnasol i un ysgol yn benodol.
  Gofynnodd i swyddogion sylwi. Nododd swyddogion fod y ELIAau yn ymwneud â dwy ysgol yng ngorllewin y ddinas sydd bellach wedi cau. Dywedodd y Cyfarwyddwr fod, yn ei farn ef, y gorddefnydd o ELIAau yn wrthgynhyrchiol ond bod amgylchiadau lle mae angen i ddisgyblion eraill gael eu hamddiffyn rhag ymddygiad drwg.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

15 : ARWYDDION DIOGELWCH - BRÎFF

Yn rhan o Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2017-18, mae Aelodau wedi gofyn yn flaenorol am adroddiad briffio ar weithredu Arwyddion Diogelwch yng Nghyngor Caerdydd. Mae Arwyddion Diogelwch yn fframwaith integredig ar gyfer Gwasanaethau Plant sy'n nodi egwyddorion ar gyfer arfer; disgyblaethau ar gyfer ymarferwyr; ystod offer ar gyfer asesu a chynllunio , penderfynu ac ymgysylltu â phlant a theuluoedd; a disgrifio'r prosesau y mae'r gwaith yn cael ei wneud gyda theuluoedd a phlant.

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn rhoi trosolwg o'r fframwaith Arwyddion Diogelwch a chrynodeb o'r tri phrif egwyddor, neu golofn, a ddefnyddir i fynd i'r afael â phrif heriau'r gwaith, sef: Mae gweithio mewn perthnasau'n hollbwysig; Meddwl yn Feirniadol; ac Ar Sail Profiad Bob Dydd.

Yng Nghaerdydd, mewn ymateb i'r heriau sy'n wynebu arfer gwaith cymdeithasol, dechreuodd y Gwasanaethau Plant ar weithredu fframwaith risg unigol trwy fabwysiadu'r model Arwyddion Diogelwch, a fyddai'n galluogi'r gwasanaeth i weithio tuag at weledigaeth strategol ar sail atal a lleihau'r angen am ymyraethau statudol. Cytunwyd y byddai dull project yn cael ei ddefnyddiol i ymwreiddio'r fframwaith ym mhob rhan o'r gwasanaeth. Sefydlwyd Tîm Project i weithio ochr yn ochr ag ymgynghorydd allanol Arwyddion Diogelwch a lluniwyd cynllun gweithredu.

Yn ogystal, cytunwyd creu grŵp llywio er mwyn datblygu ffurfiau a phrosesau mewnol a fyddai'r cynorthwyo orau i weithredu Arwyddion Diogelwch. Yn rhan o aelodaeth y grŵp llywio, roedd staff o bob rhan o'r gwasanaeth.

Dywedwyd wrth Aelodau fod Arwyddion Diogelwch yn canolbwyntio ar gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel. Rhagwelir y caiff ei weithredu'n llwyddiannus os caiff arfer gwaith cymdeithasol ei newid yn gyfan gwbl a chyda ymrwymiad i gadw teuluoedd ynghyd trwy reoli a lleihau risgiau. Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud ond mae sawl her i'w gweld o hyd.

Croesawodd y Cadeirydd Graham Hinchey, Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd; Irfan Alam, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cynorthwyol; Jo-Anne Phillips (Rheolwr Projectau; a Marissa Moon (Rheolwr Tîm, Derbyn ac Asesu); i'r cyfarfod. Yn dilyn datganiadau byr gan yr Aelod Cabinet a'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol, gwahoddwyd y swyddogion i roi cyflwyniad o'r enw 'Gweithredu Arwyddion Diogelwch yng Nghyngor Caerdydd'.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu cyflwyniad. Cafodd y Pwyllgor gyfle i wneud sylwadau, ceisio eglurder neu chodi cwestiynau ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Gofynnodd Aelodau a yw'r Gwasanaethau Plant yn parhau i weithio gyda theuluoedd ar ôl i'r achos ddod i ben. Cadarnhaodd swyddogion nad yw'r Gwasanaethau Plant yn parhau i weithio gyda nhw ond bod cynllun diogelwch yn cael ei roi ar waith a bod disgwyliad y byddai rhanddeiliaid, megis ysgolion neu'r teulu, yn adrodd yn ôl i'r Gwasanaethau Plant pe bai unrhyw broblemau'n codi.

- Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod staff yn y gwasanaeth wedi ymrwymo i'r dull Arwyddion Diogelwch. Mae Staff yn dal i wynebu galwon a heriau o ganlyniad i lwythi achos mawr ac roedd gwaith i recriwtio ar gyfer swyddi cymdeithasol ychwanegol newydd eu creu yn parhau.

- Ymwelwyd â phob Tîm Gwaith Cymdeithasol a gwahoddwyd staff i roi enghreifftiau o bwy ydym yn ei drio i wynebu'r heriau. Derbyniwyd ymateb da a rhannwyd yr enghreifftiau hynny â phob rhan o'r gwasanaeth.

- Cefnogodd Aelodau dyheadau'r gwasanaeth ond gofynnon nhw am eglurhad pellach o ran sut y gellid cyflawni'r rhain heb leihau llwythi achos gweithwyr cymdeithasol.

  Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod capasiti sy'n tyfu yn y gwasanaeth yn hollbwysig. Derbyniwyd bod angen mwy o staff a rheolwyr. Fodd bynnag, mae newidiadau i arferion gwaith hefyd yn angenrheidiol, megis cynnig mannau myfyrio sydd i fwrdd o'r brif swyddfa. Y nod pennaf yw gwella arfer a lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal.

- Dywedodd swyddogion y trafodir arferion Arwyddion Diogelwch mewn cyfarfodydd mewnol.
  Mae adborth gan staff wedi bod yn eithriadol gadarnhaol. Mae strwythurau'n cael eu rhoi ar waith i gefnogi newidiadau a chynnal y momentwm cadarnhaol.

- Ceisiodd Aelodau eglurdeb ynglŷn â goblygiadau cyfreithiol y newidiadau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cynorthwyol fod y Gwasanaethau Plant wedi ymgysylltu ag asiantaethau eraill. Mae barnwr yn gyfarwydd â'r fframwaith Arwyddion Diogelwch, ac er eu bod yn sgeptig, mae rhywfaint o adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn. Gofynnwyd i Aelodau nodi bod sawl achos amddiffyn

plant lle nad yw’r dull Arwyddion Diogelwch yn briodol ar u cyfer ac y caiff y gweithdrefnau cyfredol eu defnyddio.

- O ran yr astudiaeth achos y cyfeirir ati yn y cyflwyniad, nododd Aelodau fod y plentyn wedi bod yn gysylltiedig â'r Gwasanaethau Plant ers 13 blynedd, gan gynnwys cau achosion, cyn i'r achos yma gael ei gau
  Gofynnodd Aelodau beth oedd yn wahanol am yr achos hwn ac a oedd angen o hyd am ymwybyddiaeth barhaol o'r achos. Dywedodd y swyddogion nad yw’r achos wedi'i gau yn y ffordd 'draddodiadol'. Cynhelir cyfarfod ac mae rhwydweithiau cymorth yn cael eu rhoi ar waith. Os yw’r cynllun diogelwch yn aflwyddiannus mae disgwyliad y rhoddir gwybod i’r Gwasanaethau Plant.

- Gofynnodd Aelodau a oedd unrhyw gynlluniau i ail-drafod penderfyniadau a rhoi'r fframwaith arwyddion diogelwch ar waith.
  Dywedodd swyddogion nad oes atebolrwydd lle caiff plant eu mabwysiadu. Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefydlu tîm ymroddedig i gyflawni gorchmynion gofal trwy ddefnyddio’r dull Arwyddion Diogelwch.

Gwnaethpwyd yr Aelod Cabinet ddatganiad cau. Dywedwyd wrth y Pwyllgor nad oes modd cuddio o nifer y plant sy'n cael eu cyflwyno. Er bod hyn yn cyflwyno anawsterau cyllidebu, mae'r canlyniad gorau ar gyfer y plant hynny'n hollbwysig. Bydd angen amynedd cyn i nifer y plant sy'n derbyn gofal leihau.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a’u harsylwadau.

16 : GWYBODAETH AM REOLI PERFFORMIAD Y GWASANAETHAU PLANT – ADRODDIAD CHWARTER 1

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaethau Plant yn nodi data perfformiad yn amlinellu cynnydd yn erbyn ymrwymiadau ar gyfer y chwarter yn dod i ben 30 Mehefin 2017. Cynghorwyd Aelodau fod datblygu parhaol Fframwaith Rheoli Perfformiad Caerdydd wedi golygu bod y broses fonitro a gwerthuso bellach yn unol â’r ymrwymiadau sydd yn y Cynllun Corfforaethol a’r dangosyddion perfformiad wedi’u gosod i gynorthwyo sefyllfa berfformiad cyffredinol y Cyngor. Atodwyd y data perfformiad yn ymwneud â’r Gwasanaethau Plant ar yr adroddiad.

Rhodd yr adroddiad drosolwg o berfformiad y gwasanaeth, gan gynnwys methu sydd ar y gweill yn erbyn amcanion y Cynllun Corfforaethol.

Cafodd Aelodau wahoddiad i ystyried yr adroddiad a gwneud sylwad am hyn, codi cwestiynau neu cheisio eglurder am y wybodaeth a roddwyd. Mae’r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Nododd Aelod y gwelliant o ran ymgysylltu â chymunedau ffydd wedi cyfeirio atynt yn yr adroddiad. Dywedodd swyddogion, er bod cynnydd wedi bod gyda grwpiau ffydd, roedd mosgiau a madrasas yn flaenoriaeth o ganlyniad i nifer enfawr y plant oedd yn mynd iddynt.

- Gofynnodd Aelodau a oedd unrhyw gynlluniau i recriwtio gweithwyr cymdeithasol o gymunedau BAME. Nododd swyddogion eu bod yn ceisio gweithwyr

cymdeithasol o bob cefndir. Byddai digwyddiad mabwysiadu/maethu gyda'r bwriad o ddenu gofalwyr maeth o gymunedau BAME yn cael ei gynnal yn y dyfodol agos.

- Gofynnwyd i swyddogion esbonio pa waith rheoli cyllideb sy'n cael ei wneud. Dywedodd swyddogion ei bod yn anodd rheoli gwariant disgwyliedig. Gwneir penderfyniadau i gynnwys plant sydd mewn perygl ar lefel Rheolwr Gweithredol. Yn ystod adolygiad diweddar o 40 achos, roedd gan bob achos rhesymau dros gynnwys y plentyn. Mae angen diogelu plant, ond caiff dewisiadau eraill eu harchwilio. Mae achosion lle caiff plant eu hamddiffyn yn straeon llwyddiant.

CYTUNWYD - Bod y Cadeirydd yn ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

17 : RHAGLEN WAITH

Derbyniwyd y Pwyllgor y Rhaglen Waith ar gyfer 2017-18 i'w chymeradwyo. Dywedodd y Prif Swyddog Craffu y adolygwyd y Rhaglen Waith ar gyfer 2017-18 yng Nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf ac y cynhwyswyd yr eitemau canlyniadol ar y calendr wedi'i atodi at yr adroddiad yn Atodiad A a rhoddodd rhaglen gytbwys ar gyfer y flwyddyn.

Gwahoddodd y Prif Swyddog Craffu ddatganiadau o ddiddordeb gan Aelodau oedd am gymryd rhan yn y grwpiau gorchwyl a gorffen 'Y Tu Allan i'r Sir' a 'Pobl Ifanc a Delio Cyffuriau. Derbyniwyd Aelodau grynodeb o'u hymrwymiadau tebygol. Cytunwyd y Prif Swyddog Craffu i gylchredeg e-bost yn gwahodd gwirfoddolwyr i gymryd rhan yn y ddau Ymholiad Gorchwyl a Gorffen.

CYTUNWYD – Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2017-18. Cytunodd Aelodau i gynnal ymholiad i leoliadau Y Tu Allan i'r Sir.

18 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 10 Hydref 2017.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.00 pm